## Tasg 1


# Prynu beic ail-law

Mae prynu beic ail-law yn syniad da weithiau ond dylech chi fod yn ofalus – yn ofalus iawn, e.e.

- Ydy’r brêcs yn gweithio?
- Ydy’r gêrs yn gweithio?
- Ydy’r ffrâm yn iawn?
- Ydy’r sêt yn iawn?
- Ydy’r olwynion yn iawn?
- Beth am y teiars – ydyn nhw’n iawn?
- Oes marciau ar y beic?
- Beth am faint y beic – ydy e’n rhy fach? Ydy e’n rhy fawr?
- Beth am y pris? Ydy e’n rhy ddrud? Ydy e’n rhy rad? Os ydy e’n rhy rad – pam? Ydy’r beic wedi’i ddwyn efallai?
- Beth am y gwerthwr – ydy e’n edrych yn onest?
- Ydy e’n rhoi derbynneb i chi?

Dylech chi fynd â Dad neu Mam neu ffrind gyda chi hefyd.

Edrychwch ar y llun yma. Labelwch y llun.



| Geirfa | | | |
|---|---|---|---|
| iawn | alright | wedi’i ddwyn | stolen |
| maint | size | gwerthwr | seller |
| olwynion | wheels | derbynneb | receipt |
| rhy ddrud | too expensive | mynd â | to take |
| rhy rad | too cheap | | |

Ewch i’r dudalen nesaf.

Edrychwch ar y ffilm eto. Yna, llenwch y grid yma. Ysgrifennwch frawddegau llawn:

| **Dylai Ben ...** | **Ddylai Ben ddim ...** |
|---|---|
| Dylai Ben ofyn am help Carys. | Ddylai Ben ddim prynu'r beic. |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

Dyma ychydig o help i chi:

| | | | |
|---|---|---|---|
| edrych ar<br>edrych am<br>chwilio am<br>gofyn am y beic<br>gwirio | to look at<br>to look for<br>to search for<br>to ask about the bike<br>to check | gwario<br>bargeinio<br>trio<br>gwisgo<br>helmed | to spend<br>to bargain<br>to try<br>to wear<br>helmet |

Cymharwch eich syniadau chi â syniadau partner.